

CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Yn wyneb y cyfyngiadau ariannol refeniw sydd yn ein hwynebu a'r ffaith fod ein Strategaeth Asedau blaenorol wedi cynnwys elfen sylweddol o fenthycyca darbodus (sy'n golygu pwysau ar y gyllideb refeniw i dalu am y costau benthyca), mae adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau nesaf ar droed.
3. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

RHAGLEN GYFALAF			
	2019/20	2020/21	2021/22
	£'000	£'000	£'000
Cynlluniau Newydd			
Cynllun Rheoli Asedau i'w Ddyrannu	11,728	7,535	6,610
Atgyweirio Priffyrdd	2,650	1,325	0
Gofal Plant	1,238	1,113	0
Strategaeth Dai	2,700	2,700	2,700
	18,316	12,673	9,310
Cynlluniau Wedi eu Cymeradwyo - Eisoës ar y Rhaglen	16,675	6,129	0
CYFANSWM Y RHAGLEN	34,991	18,802	9,310

4. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF			
	2019/20	2020/21	2021/22
	£'000	£'000	£'000
Cynlluniau Newydd			
Darpariaeth Cyfalaf yn y Setliad	7,995	7,535	6,610
Grantiau a Chyfraniadau	2,563	2,438	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	7,758	2,700	2,700
	18,316	12,673	9,310
Cynlluniau Wedi eu Cymeradwyo - Eisoës ar y Rhaglen			
Benthyca Arall	1,393	777	0
Grantiau a Chyfraniadau	8,753	525	0
Derbyniadau Cyfalaf	98	750	0
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	265	0	0
Cronfa Cyfalaf	1,435	0	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	4,731	4,077	0
	16,675	6,129	0
CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN	34,991	18,802	9,310

5. Bwriedir sefydlu strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen, yn unol â'r adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet yn fuan yn 2019. Bydd y strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29.
6. Cymeradwywyd y drefn er mwyn sefydlu'r strategaeth nesaf gan y Cabinet ar 16 Ionawr 2018 ac yn ystod y misoedd yn dilyn gofynnwyd i holl aelodau'r Cyngor i flaenoriaethu'r cynlluniau a roddwyd ymlaen gan adrannau. Bydd adroddiad ar y cynlluniau manwl yn dod gerbron am gymeradwyaeth yn ddigon buan am y flwyddyn ariannol 2019/20.
7. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2019/20 i 2021/22, tra bydd y manylder ar y cynlluniau unigol yn cael ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd newydd.
8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn ychwanegu £18,316,130 at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2019/20, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £34,991,250 erbyn 2019/20, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 4 uchod.